Bwletin Ymgynghori - wythnos yn gorffen 27 Ionawr 2012

Newydd ei dderbyn yr wythnos hon				
Ffynhonnell	**Teitl/dolen**	**Crynodeb**	**Dyddiad cyhoeddi**	**Dyddiad olaf derbyn ymateb**
Llywodraeth Cymru	Canllawiau Drafft i ategu'r Targedau Adfer Statudol a bennwyd o dan Fesur Gwastraff (Cymru) 2010	Mae'r Canllawiau'n cael eu paratoi o dan adran 7 o Orchymyn Gwastraff (Cymru) 2010. Maent yn ategu'r diffiniadau yn y Gorchymyn, a'r drefn fonitro a bennir o dan reoliadau 4 a 5 o'r Rheoliadau. Bydd y Canllawiau hyn yn rhoi mwy o eglurhad am: • y diffiniadau o ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio a geir yn y gorchymyn; • y gofynion monitro ac adrodd sydd yn y Rheoliadau. Rydym yn ceisio'ch barn hefyd am gynigion i gyflwyno deddfwriaeth a fydd yn diffinio'r sefyllfa o ran: • dad-ddyfrio, sef tynnu'r dŵr o weddillion treuliad anaerobig (yr hyn sy'n weddill ar ôl i rywbeth gael ei dreulio) sy'n dod o gyfleusterau treulio anaerobig; • sut y mae'r cyfraddau adfer o dreulio anaerobig, compostio ac ailgylchu lludw gwaelod llosgydd (IBA) a gweddillion rheoli llygredd aer (APCR) yn cael eu cyfrifo ar gyfer cyfleusterau sy'n cymryd deunyddiau o fwy nag un ffynhonnell.	23/01/2012	16/04/2012
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig	**(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)** European Marine and Fisheries Fund (EMFF)	This consultation seeks your views on proposals on the European Commission's proposals for the European Maritime and Fisheries Fund. The European Commission published their proposals for the European Maritime and Fisheries Fund (EMFF) that will replace the European Fisheries Fund (EFF) from 1 January 2014 until 31 December 2020. The EMFF is structured around four pillars: • Smart, Green Fisheries; intended to help address discards, support fisheries which are less damaging to the marine environment, support innovation value added, and build resilience to external factors; • Smart, Green Aquaculture; which aims to help aquaculture businesses achieve economic viability and competitiveness; • Sustainable Development of Fisheries Areas; targeted at reversing the decline of many coastal and inland communities dependent on fishing; and • Integrated Maritime Policy (IMP); which includes a number of cross cutting measures including maritime surveillance, data sharing, Marine Spatial Planning (MSP) and Integrated Coastal	25/01/2012	18/04/2012

		Zone Management (ICZM). The funding under this pillar will be held by the Commission and centrally distributed.		
Adran Gwaith a Phensiynau	**(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)** Draft Occupational Pension Schemes and Pension Protection Fund (Equality) (Amendment) Regulations 2012	This consultation concerns amendments to the Equality Act 2010 and the Pensions Act 2004 to reflect development in the case law of the Court of Justice of the European Union. These developments in European law mean that, where a pension scheme is equalising its benefits as between men and women, it has to assume a notional comparator where the inequality is a result of the Guaranteed Minimum Pension (GMP) provisions in the Pension Schemes Act 1993. This consultation is particularly aimed at trustees and managers of contracted-out defined benefit schemes and their advisers.	20/01/2012	12/04/2012
Adran ar Gyfer Diwylliant y Cyfryngau a Chwaraeon	**(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)** Gambling Act 2005: Legislative Reform Orders	The Government is seeking views of two proposals to use powers under the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (LRRA) to amend the Gambling Act 2005 by means of a Legislative Reform Order (LRO) to: i. remove restrictions on the employment of people under the age of 18 years at a track with a betting premises licence; ii. remove restrictions on the availability of entitlements to gaming machines at premises selling alcohol at airports. These restrictions serve no regulatory purpose and have arisen purely as unintended consequences stemming from the implementation of the Gambling Act. In the case of tracks it is proposed to create an exemption for tracks to allow them to employ under-18s in non-gambling roles when betting might be taking place. In the case of premises selling alcohol at airports it is proposed to allow such premises to take advantage of the same gaming machine entitlements that are available to other alcohol licenced premises elsewhere in Great Britain.	23/01/2012	16/04/2012

****

Cynulliad Cenedlaethol Cymru	Ydych chi eisiau Wi-Fi yn y Senedd?	Mae'r Cynulliad yn ymchwilio i'r galw am gael Wi-Fi agored ym mhob adeilad ar ystâd y Cynulliad.		

Adran Gwaith a Phensiynau	**(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)** The Occupational and Personal Pension Schemes (Levies - Amendment) Regulations 2012 - consultation on draft regulations	The consultation seeks views on the enclosed draft of the Occupational and Personal Pension Schemes (Levies – Amendment) Regulations 2012, which would make changes to the rates of the general levy and the Pension Protection Fund (PPF) administration levy for 2012/13 onwards. The intention is that the regulations will come into force on 1 April 2012.	07/11/2011	30/01/2012
Llywodraeth Cymru	Cynllun plant - drafft	Y mae'r ddogfen ymgynghori hon yn gynllun y mae'n ofynnol i ni (Llywodraeth Cymru) ei chynhyrchu o dan y Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.	07/11/2011	30/01/2012
Llywodraeth Cymru	Diweddaru rheoliadau cymwysterau athrawon ysgol yng Nghymru	Mae Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar gynigion i gyflwyno rheoliadau wedi'u diweddaru i ddisodli Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004. Mae hyn er mwyn newid rhai o'r gofynion ar gyfer cydnabyddiaeth fel athro/athrawes cymwysedig yng Nghymru. Byddai hyn yn cynnwys rhai diwygiadau a diweddariadau amrywiol.	05/12/2011	30/01/2012
Llywodraeth Cymru	Tyllu cosmetig i bobl ifanc	Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella iechyd pobl yng Nghymru. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gwireddu cam gweithredu allweddol yn y Rhaglen Lywodraethu: 'ymgynghori ar yr angen i gyflwyno deddfwriaeth i sicrhau bod yn rhaid cael cydsyniad rhiant cyn y gellir rhoi triniaeth tyllu cosmetig i bobl ifanc'. Rydym ni'n ystyried cyflwyno deddf newydd a fydd yn ymdrin â'r meysydd allweddol canlynol: 1. Yr angen i riant neu warcheidwad roi ei ganiatâd (yn ysgrifenedig a thrwy fynd i'r apwyntiad tyllu) cyn i berson ifanc o dan oedran penodol gael triniaeth tyllu cosmetig (ar hyn o bryd rydym ni'n credu mai 16 ddylai'r terfyn oedran fod). 2. Cyfyngiad oedran clir ar gyfer triniaethau tyllu cosmetig personol. 3. Set safonol o gwestiynau y mae'n rhaid i'r sawl sy'n rhoi'r driniaeth eu gofyn cyn i unrhyw driniaeth tyllu cosmetig gael ei rhoi.	18/10/2011	31/01/2012
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru	**(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)** Partners in Healthcare Strategy 2012-2014	This strategy sets out our plans for improving public health through the provision of information and an approach to continuous engagement with the people of Wales. We recognise that through our work we can contribute to the improvement of individual's health through collaboration and partnership working. Our health information and web site developments provide health advice and information that can empower	01/11/2011	31/01/2012

		and educate individuals to take responsibility for maintaining and improving their health and wellbeing. The Welsh Ambulance Services NHS Trust (WAST) wants to place its users at the centre of its services, to make sure we are providing safe, high quality care and services.		
Llywodraeth Cymru	Cynllun Drafft y Sector Adeiladu a Dymchwel	Mae'r cynllun hwn yn cwmpasu gwastraff o brosiectau adeiladu, peirianneg sifil a dymchwel. Mae'n anelu at rwystro a lleihau gwastraff a chael rhagor o ailgylchu o fusnesau yn y sector hwn. Bydd yn gwneud hyn trwy: • ddylanwadu i newid ymddygiad; • annog ffyrdd gwell o weithio; • datblygu partneriaethau gyda'r trydydd sector; a • rheolaethau deddfwriaethol. Bydd yr amcanion yn cael eu hystyried o'r broses o ddylunio'r cynnyrch neu'r adeiladau i ddymchwel, adfer a gwaredu.	08/11/2011	31/01/2012
Llywodraeth Cymru	Papur Gwyn: Cynigion ar gyfer Deddfwriaeth ar Roi Organau a Meinweoedd	Mae'r ddogfen hon yn gofyn am safbwyntiau ar gynigion deddfwriaethol mewn perthynas â rhoi organau a meinweoedd. Ar 12 Gorffennaf 2011, gwnaeth Prif Weinidog ddatganiad ar Raglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Yn y datganiad hwnnw dywedodd y bydd Llywodraeth Cymru'n "… lansio papur ymgynghori gwyn ar Fil Rhoi Organau (Cymru) cyn diwedd y flwyddyn hon. Bydd y Bil yn darparu ar gyfer system o ddewis peidio â rhoi organau, gyda chefnogaeth rhaglen gyfathrebu eang". Mae'r ymgynghoriad Papur Gwyn hwn yn gofyn am ymatebion ar gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer deddfwriaeth ar roi organau a meinweoedd Y nod yw cyflwyno system yng Nghymru sy'n anelu at gynyddu nifer y rhoddwyr organau a meinweoedd yng Nghymru, gan alluogi mwy o fywydau i gael eu harbed ac i wella ansawdd bywyd eraill. Rhoddir ystyriaeth i'ch ymatebion chi wrth ddatblygu'r Bil.	07/11/2011	31/01/2012

Llywodraeth Cymru	Ar sail Cyflogaeth Hyfforddi Athrawon yng Nghymru	Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am sylwadau ar gynigion i gyflwyno ar sail cyflogaeth diwygiedig Cynllun Hyfforddi Athrawon i ddod i rym o 1 Medi 2013. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad ar gynigion i gyflwyno Cynllun Hyfforddi Athrawon ar sail Cyflogaeth diwygiedig. Byddai'r cynllun hwn yn disodli Cynllun Hyfforddi Athrawon ar sail Cyflogaeth 2011 (2011 Rhif 32) ("Cynllun 2011") a byddai'n cyflwyno darpariaethau a fyddai'n galluogi rhaglen hyfforddi ychwanegol i gael ei chynnal pe bai angen.	11/11/2011	31/01/2012
Adran Busnes Arloesi a Sgiliau	**(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)** Call for evidence - Collective Redundancy Consultation Rules	With this Call for Evidence we are keen to establish the advantages and disadvantages of the current rules on collective redundancy consultation. We want to find out what effect they have on business confidence and flexibility to respond effectively and appropriately to market opportunities and challenges. We want to understand the challenges for business in pursuing collective redundancy consultation – including the barriers to starting consultation and achieving agreement. We also want to explore the issues for employees – including the ability to engage meaningfully with their employer during a consultation and the ability to find and secure alternative employment or training, should that prove necessary.	23/11/2011	31/01/2012
Adran Busnes Arloesi a Sgiliau	**(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)** Call for evidence - On EU proposals on Alternative Dispute Resolution (ADR)	This Call for Evidence seeks views from UK stakeholders on recent proposals from the European Commission on consumer alternative dispute resolution. In summary, the Commission argue that all EU consumers should be able to solve their problems without going to court, regardless of the kind of product or service that the contractual dispute is about and regardless of where they bought it in the European Single Market. In addition, for consumers shopping online and from another EU country, the Commission want to create an EU-wide single online platform which will allow contractual disputes to be solved entirely online and within 30 days. The proposals are likely to impact UK consumers, businesses and organisations that currently provide alternative dispute resolution services. Views are sought on the likely scale of these impacts. Views received will help form the UK's negotiating position.	21/12/2011	31/01/2012
Llywodraeth Cymru	Casglu a Chyhoeddi Ystadegau Tân	Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn defnyddwyr ar gynigion i newid y casgliadau data ac allbynnau ystadegol. Bydd eich cyfraniadau yn ein helpu i ddeall yr effaith y gallai'r newidiadau hyn ei chael ar yr unigolion a'r sefydliadau sy'n defnyddio ystadegau hyn. Bydd canlyniad yr ymgynghoriad hwn yn llywio ein blaenoriaethau ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod. Mae hyn yn cydymffurfio gyda Chod Ymarfer Ystadegau Swyddogol sy'n datgan bod ymgysylltu effeithiol â defnyddwyr yn hanfodol o ran ymddiriedolaeth yn ystadegau ac i sicrhau gwerth cyhoeddus uchaf.	09/11/2011	01/02/2012

Llywodraeth Cymru	Adolygiad o'r eithriadau i'r rheoliadau ynghylch uchafswm hyd cychod pysgota yn y parth 0-6nm.	Mae gwahardd pysgota mewn ardaloedd penodol o'r parth 0-6nm wrth ddefnyddio cychod mwy na chyfyngiadau maint penodol yn sylfaenol. Mae hyn yn ofynnol i helpu i gyflawni'r weledigaeth sydd yn Strategaeth Pysgodfeydd Cymru.	10/11/2011	02/02/2012
Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Y Swyddfa Ddeddfwriaeth	Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru)	Mae'r Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) arfaethedig yn gweithredu cynigion Llywodraeth Cymru i symleiddio'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud a gorfodi is-ddeddfau awdurdodau lleol. Mae'r Bil yn cyflwyno gweithdrefn amgen i awdurdodau lleol ei dilyn wrth wneud nifer o is-ddeddfau. Ar gyfer yr is-ddeddfau hyn, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau ymgynghori'n lleol cyn gwneud is-ddeddf ac yn cael gwared ar y gofyniad i Weinidogion Cymru ei chadarnhau. Mae'r Bil arfaethedig hefyd yn cynnig dull amgen opsiynol, a mwy effeithlon, o orfodi drwy hysbysiadau cosb benodedig. Yn olaf, mae'r Bil hefyd yn diwygio ac yn cydgrynhoi'r darpariaethau cyfredol ar is-ddeddfau yn adrannau 235 i 238 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Cam yw hyn i gyfeiriad datblygu Llyfr Statud i Gymru ac mae'n sicrhau bod y darpariaethau deddfwriaethol allweddol ynghylch gwneud, cadarnhau a gorfodi is-ddeddfau yng Nghymru ar gael mewn un deddfiad.	28/11/2011	02/02/2012
Llywodraeth Cymru	Galw am dystiolaeth: Sicrhau system gynllunio effeithiol	Fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Bil Cynllunio a fydd yn cael ei gyflwyno yn 2013, mae grŵp cynghori annibynnol wedi'i sefydlu i adolygu ac ystyried yr opsiynau ar gyfer sut mae cynnal y system gynllunio yn y dyfodol.	11/11/2011	03/02/2012

Llywodraeth Cymru	Deddf Cydraddoldeb 2010: Dyletswydd ar ysgolion ac Awdurdodau Lleol i ddarparu a chymhorthion a gwasanaethau ategol i blant anabl	Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn ceisio barn am gychwyn y ddarpariaeth sydd yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r ddarpariaeth sy'n gosod dyletswydd ar ysgolion ac awdurdodau lleol i ddarparu cymhorthion ategol yn rhan o'u dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer plant anabl. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi y bydd un o Weinidogion Llywodraeth y DU yn gyfrifol am gychwyn y ddyletswydd newydd sy'n ymwneud â chymhorthion ategol, llunio unrhyw reoliadau dan adran 22 o Ddeddf 2010 a chynnal unrhyw ymgynghoriad ynghylch y materion hyn yng nghyswllt Cymru. Fodd bynnag, mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno i ymgynghori yng nghyswllt Cymru ar ran Gweinidog y DU dan adran 83(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r ymgynghoriad yn ceisio ymatebion ynghylch dau fater. Yn gyntaf, y dyddiad y dylai'r ddyletswydd newydd ddod i rym, gan gynnwys yr angen i ystyried a oes unrhyw resymau pam na ddylai'r ddyletswydd gychwyn, neu pam y dylai'r ddyletswydd gychwyn yn hwyrach na mis Medi 2012. Yn ail, a fyddai rheoliadau dan adran 22 o Ddeddf 2010 yn angenrheidiol i ddiffinio'r ddyletswydd ar ysgolion ac awdurdodau lleol i ddarparu cymhorthion ategol.	11/11/2011	03/02/2012
Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc	Ymchwiliad i fabwysiadu	Mae Pwyllgor Planta Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal ymchwiliad i fabwysiadu a mae'n awyddus iedrych yn fanwl ar brofiadau'r rheini yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y broses fabwysiadu ac i glywed eu llais. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymatebion gan unigolion a sefydliadau. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, cyflwynwch ddisgrifiad byr o rôl eich sefydliad. Yn gyffredinol, byddwn yn gofyn am gyflwyniadau ysgrifenedig oherwydd mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi'r dystiolaeth a gyflwynir i'r Pwyllgor ar ein gwefan fel bod cofnod cyhoeddus ohoni. Fodd bynnag, gallwn hefyd dderbyn tystiolaeth mewn fformat sain neu fideo.	09/02/2011	03/02/2012
Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol	Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru	Ers i ganlyniad y refferendwm ar 3 Mawrth 2011 roi pwerau eang i'r Cynulliad Cenedlaethol wneud deddfau i Gymru,mae'r cwestiwn ynghylch a dylai Cymru ddod yn awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân wedi dod yn fater o ddiddordeb agaiff ei drafod yn gyhoeddus. Yn benodol, mae Prif Weinidog Cymru wedi nodi ei fod yn bwriadu dechrau trafodaethgyhoeddus ynghylch a oes angen awdurdodaeth ar wahân i Gymru. Barn y Pwyllgor yw bod y datblygiadau hyn yn rhoi cyfle da i archwilio'r agweddau technegol o'r cwestiwn hwn ac fellywedi cytuno i gynnal ymchwiliad iddo.	19/12/2011	03/02/2012

Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru	Galw am Dystiolaeth	Mae gan y Comisiwn ddiddordeb mewn clywed barn pobl ledled Cymru ar bwerau ariannol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y dyfodol. Materion megis: • Pa bwerau treth, os o gwbl, ddylai gael eu trosglwyddo i Gymru? • Pa bwerau benthyca, os o gwbl, ddylai gael eu datganoli i Gymru? • Sut gellir grymuso a gwella atebolrwydd ariannol Llywodraeth Cymru? Dyma rai o'r cwestiynau pwysig y mae'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru am glywed eich barn chi yn eu cylch. I gynorthwyo ein gwaith ar Ran 1 ei gylch gwaith, rydym wedi galw am dystiolaeth, ac wedi gwahodd partïon i gyflwyno eu barn erbyn 3 Chwefror 2012, er mwyn helpu i gyfrannu at ein gwaith.	03/01/2012	03/02/2012
Y Swyddfa Gartref	**(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)** Consultation on stalking	The government has launched this consultation to ask for views on how we can protect victims of stalking more effectively. The consultation incorporates a number of issues, including current legislation, the effect of police information notices, search powers, the work of existing organisations and alternative measures to tackle stalking.	14/11/2011	05/02/2012
Llywodraeth Cymru	Ymgynghoriad ynghylch y canllawiau drafft i ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth a'r Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) ar dariffau cymdeithasol	Diben yr ymgynghoriad hwn yw cael barn pobl am ganllawiau drafft Llywodraeth Cymru i ymgymerwyr (cwmnïau dŵr a charthffosiaeth a chwmnïau dŵr yn unig), sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, ac Ofwat (yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr), ar dariffau cymdeithasol.	14/11/2011	06/02/2012
Gweinyddiaeth Cyfiawnder	**(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)** Fees in the High Court and Court of Appeal	A consultation proposing changes to fees in the High Court and Court of Appeal Division. It is aimed at users of the High Court and Court of Appeal Civil Division, the legal profession, the judiciary, the advice sector and all with an interest in this area in England and Wales. The aim of these proposals is to charge users of these two jurisdictions more proportionally for the resource their cases consume, while protecting access to justice for the most vulnerable. This will reduce the taxpayer subsidy of the courts service.	15/11/2011	07/02/2012
Yr Asiantaeth Safonau Bwyd	Diddymu Rheolaethau ar Ddefaid yn sgil Chernobyl	Ffermwyr defaid yn yr ardaloedd dan gyfyngiadau yng Ngogledd Cymru, Cumbria a Gorllewin a Chanolbarth yr Alban. Cynhyrchwyr a manwerthwyr cig oen a chig defaid a'r rheiny sy'n defnyddio'r cynhyrchion hyn.	17/11/2011	08/02/2012

Llywodraeth Cymru	Pŵer gorfodol newydd i gymryd meddiant oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol	Cynigir yn y papur ymgynghori bod pŵer gorfodol newydd yn cael ei gyflwyno i gymryd meddiant oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol. Byddem yn croesawu safbwyntiau am y materion a ganlyn: • Cyflwyno pŵer gorfodol i gymryd meddiant • Gweithredu'r pŵer hwnnw.	18/11/2011	10/02/2012
General Medical Council	**(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)** Help us review Good Medical Practice 2012	The General Medical Council is seeking your views on *Good Medical Practice - a draft for consultation*. This questionnaire is aimed at representatives of organisations but is open to anyone.	31/10/2011	10/02/2012
Llywodraeth Cymru	Ymgynghori ar dargedau adfer ac ailgylchu y DU ar gyfer gwastraff deunydd pacio ar gyfer 2013-2017	Daeth y Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr ar ddeunydd pacio i rym ar 16 Mawrth 2007. Dyma ymgynghoriad ar y cyd ar y targedau newydd gan: • Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra); • Llywodraeth yr Alban; a • Llywodraeth Cymru.	16/12/2011	10/02/2012
Gweinyddiaeth Cyfiawnder	**(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)** Appointments and Diversity: A Judiciary for the 21st Century	A consultation on proposed amendments to the statutory and regulatory frameworks for judicial appointments, together with improving judicial diversity. Although the principle of appointment on merit will remain, the changes will enable clear career progression and flexible working arrangements to encourage applications from previously untapped talent pools. The wide ranging consultation seeks views whether, when considering two candidates of equal ability, there could be a presumption in favour of selecting the person from an underrepresented group. Lack of diversity among judges has been shown to have a negative impact on the experience of people who use the courts, and limits the range of life experiences that judges can draw upon.	21/11/2011	13/02/2012
Yr Asiantaeth Safonau Bwyd	**(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)** The Food Additives (Wales) (Amendment) and the Extraction Solvents in Food (Amendment) (Wales) Regulations 2012	To provide stakeholders with an opportunity to comment on the provisions of the draft Food Additives (Wales) (Amendment) and the Extraction Solvents in Food (Amendment) (Wales) Regulations 2012 and the associated EU legislation.	15/12/2011	16/02/2012

Llywodraeth Cymru	Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub o 2012 Ymlaen	Mae'r Fframwaith Tân ac Achub Cenedlaethol yn disgrifio gweledigaeth a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru. O dan adran 21 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 ("Deddf 2004") rhaid i Weinidogion Cymru baratoi ac ymgynghori ar Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub sy'n gosod blaenoriaethau ac amcanion ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub (ATA). Mae'r ymgynghoriad hwn yn darparu drafft o'r Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub arfaethedig ar gyfer 2012 ac ymlaen (y Fframwaith drafft) (gweler Atodiad A). Rydym yn eich gwahodd i roi sylwadau am ei gynnwys.	29/11/2011	17/02/2012
Llywodraeth Cymru	Cwrdd â'r Her Tai: Creu consensws ar gyfer gweithredu	Gall tai ddylanwadu'n fawr ar les pobl, yn gymdeithasol ac yn economaidd. Mae'n faes, felly, sy'n chwarae rhan allweddol yn y gwaith yr ydym yn ei wneud i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod cartref boddhaol ar gael i bawb. Ond mae heriau mawr yn ein hwynebu ac nid ydynt yn rhai hawdd i'w datrys: • Nid oes digon o gartrefi ar gael i bawb am fod y boblogaeth yn cynyddu, am fod pobl yn byw yn hirach, ac am fod mwy o bobl yn dewis byw ar eu pen eu hunain; • Mae angen gwella llawer o dai, yn enwedig y rheini sy'n cael eu rhentu oddi wrth landlordiaid preifat a rhai o'r tai hŷn y mae pobl yn berchen arnynt; • Sicrhau bod pobl yn cael y gwasanaethau y mae eu hangen arnynt er mwyn dod o hyd i gartref, a'i gadw, yn enwedig y bobl hynny sydd mewn amgylchiadau personol anodd iawn neu sy'n wynebu sefyllfaoedd argyfyngus yn eu cartrefi; • Mae'r cynnydd yng nghostau byw a'r newidiadau i fudd-daliadau yn effeithio ar bobl, ac mae'r effaith honno'n destun pryder.	08/12/2011	17/02/2012

Llywodraeth Cymru	Rheoli gweithwyr gofal iechyd sydd wedi'u heintio â HIV	Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich sylwadau ar y newidiadau arfaethedig i'r polisi presennol ar weithwyr gofal iechyd sydd wedi'u heintio â HIV. Gwnaed argymhellion yn sgil adolygu'r canllawiau cenedlaethol presennol ar gyfer rheoli gweithwyr gofal iechyd sydd wedi'u heintio â HIV, hepatitis B a hepatitis C. Cafodd yr adolygiad ei gynnal gan weithgor a oedd yn cynnwys: • Grŵp Cynghori Arbenigol ar AIDS; • Panel Cynghori'r DU ar gyfer gweithwyr gofal iechyd sydd wedi'u heintio â feirysau a gludir yn y gwaed; • Grŵp Cynghori ar Hepatitis. Rydym yn gofyn am ymatebion i'r argymhellion hyn i helpu i asesu cyngor y gweithgor i sicrhau bod cleifion yn cael eu diogelu rhag y perygl o gael eu heintio gan HIV.	01/12/2011	23/02/2012
Adran Gwaith a Phensiynau	**(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)** Support for mortgage interest - call for evidence	This call for evidence sets out the Government's ideas on simplifying the help provided towards mortgage interest payments for working age and pensioner home owners, and considers potential future changes in line with Universal Credit principles, and fairness to taxpayers. It seeks responses to a number of questions and other comments that respondents may wish to make about the options in the document or other potential option	06/12/2011	27/02/2012
Llywodraeth Cymru	Newidiadau gweithdrefnol arfaethedig ar gyfer hysbysebu gorchmynion rheoleiddio traffig ffyrdd	Yn amodol ar ganlyniad yr Ymgynghoriad hwn, cynigir diwygio tair set o reoliadau presennol er mwyn symleiddio'r broses o hysbysebu Gorchmynion Rheoleiddio Traffig, gan roi mwy o hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ac Awdurdodau Traffig Lleol yng Nghymru hysbysebu'r cyfryw orchmynion a dileu'r gofyniad statudol cyfredol i roi hysbysiadau cyhoeddus mewn papurau newydd.	07/12/2011	29/02/2012
Llywodraeth Cymru	Newidiadau Arfaethedig i Gasgliadau Data Gwerthiannau Tai Cymdeithasol	Hoffem glywed eich barn am ein cynigion am newidiadau i'r eitemau data a gasglwyd ac a gyhoeddir ar werthiannau tai cymdeithasol. Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn defnyddwyr am y cynigion ar gyfer: • Newidiadau i'r eitemau data a gasglwyd ar werthiannau tai cymdeithasol ac i'r diffiniadau perthnasol; • Y defnydd o gyhoeddiadau ar werthiannau tai cymdeithasol. Bydd eich cyfraniadau yn ein helpu i ddeall yr effaith y gallai'r newidiadau hyn gael ar unigolion a sefydliadau sy'n defnyddio'r ystadegau hyn. Bydd canlyniad yr ymgynghoriad hwn yn ein helpu â'n penderfyniad o ran a gall y newidiadau hyn gael eu gweithredu. Mae hyn yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Ystadegau Swyddogol sy'n dweud bod gweithio'n agos â defnyddwyr yn effeithiol yn hanfodol i ffydd mewn ystadegau a sicrhau'r gwerth cyhoeddus mwyaf.	12/01/2012	01/03/2012

Llywodraeth Cymru	Arolwg o'r Dyfroedd Pysgod Cregyn sydd wedi'u Dynodi yng Nghymru	Mae'r Gyfarwyddeb Dyfroedd Pysgod Cregyn yn ymdrin ag ansawdd dyfroedd pysgod cregyn ac â'r arfordiroedd a'r aberoedd y dylid yn ein barn ni eu diogelu neu eu gwella i gynnal bywyd a thwf pysgod cregyn a chyfrannu at ansawdd uchel y pysgod cregyn rydym yn eu bwyta.	05/12/2011	02/03/2012
Yr Asiantaeth Safonau Bwyd	Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2012	Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn ymgynghori ar fersiwn ddrafft o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2012.	09/12/2011	02/03/2012
Llywodraeth Cymru	Diwygio Polisi Cynllunio Cymru Pennod 7 Cynnal yr Economi	Rydym yn diwygio'r polisi cynllunio ar gyfer datblygu economaidd i sicrhau ei fod yn gallu gyflawni'n dyheadau ar gyfer adfywio economaidd yng Nghymru. Mae adroddiad ymchwil Cynllunio ar gyfer Adnewyddu Economaidd Cynaliadwy wedi llywio'r gwaith hwn. Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn gan Roger Tym a'i Bartneriaid ar y cyd ag Asbri Planning. Rydym hefyd am gael eich safbwyntiau am strwythur Nodyn Cyngor Technegol (TAN) newydd y byddwn yn ei gyhoeddi yn 2012. Cynhelir ymgynghoriad manwl arall ar y TAN yn ddiweddarach yn 2012. Yr unig beth rydym am ei wybod ar hyn o bryd yw a ydych yn meddwl bod strwythur y TAN yn briodol.	28/11/2011	05/03/2012
Adran Gwaith a Phensiynau	**(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)** Bereavement Benefit for the 21st Century	This consultation document forms an integral part of this Government's review of bereavement benefits. We are seeking views on how these payments should support future working-age widows, widowers and widowed civil partners. Payments made under the War Pensions Scheme or Armed Forces Compensation Scheme will not be affected by this review. The review will not impact those already in receipt of bereavement benefits at the point at which a new scheme is introduced.	12/12/2011	05/03/2012

Llywodraeth Cymru	Ymgynghoriad ar y ddogfen ddrafft 'Gyda'n Gilydd yn Erbyn Canser', Cynllun Cyflawni cenedlaethol ar gyfer y GIG hyd at 2016. **Bydd Cynghrair Canser Cymru yn ymateb i'r ymgynghoriad ac fe fydden nhw'n gwerthfawrogi sylwadau ar y cynllun o aelodau Rhwydawaith3. Os ydych chi eisiau rhannu ymateb neu eich sylwadau gyda nhw, yna e-bostiwch Clare Bath, Ymchwil Canser y DU, sy'n arwain y rhwydwaith ar hyn o bryd. E-bost Clare yw: clare.bath@cancer.org.uk**	Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio sylwadau a safbwyntiau gan glinigwyr, rheolwyr y GIG a defnyddwyr gwasanaethau. Erys canser yn flaenoriaeth fawr i Gymru. Dros y blynyddoedd nesaf, canfyddir bod gan tua un o bob tri unigolyn ganser cyn iddynt gyrraedd 75 oed a thua phedwar o bob 10 rywbryd yn ystod eu bywyd. Mae canser yn ddiagnosis cyffredin ac mae nifer yr achosion yn cynyddu. Mae'r Cynllun Cyflawni drafft yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer poblogaeth Cymru a beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer gwasanaethau canser y GIG.	19/12/2011	05/03/2012
Gweinyddiaeth Cyfiawnder	**(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)** Introducing fees in employment tribunals and Employment Appeal Tribunal	This consultation is aimed at users of the employment tribunals and the Employment Appeal Tribunal, the legal profession, the judiciary, the advice sector and all with an interest in this area in England, Wales and Scotland. Bringing a claim or an appeal to the employment tribunal or the Employment Appeal Tribunal is currently free of charge with the full cost of running the tribunals being met by the taxpayer. The aim of these proposals is reduce the taxpayer subsidy of these tribunals by transferring some of the cost to those who use the the service, while protecting access to justice for the most vulnerable. Views are welcomed on fee charging structures and two options are proposed in this consultation.	14/12/2011	06/03/2012
Llywodraeth Cymru	Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)	Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i atal iechyd gwael a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Fel rhan o hyn rydym yn bwriadu cyflwyno Bil ar gyfer Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd statudol. Bydd Bil Hylendid Bwyd (Cymru) yn ei gwneud yn orfodol i fusnesau bwyd yng Nghymru arddangos gwybodaeth am eu safonau hylendid (eu sgorau hylendid bwyd). Bydd rhaid arddangos sgôr busnes bwyd mewn man amlwg lle gall cwsmeriaid ei weld yn hawdd. Bydd hyn yn rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr am arferion hylendid busnesau bwyd. Bydd y Cynllun hefyd yn helpu defnyddwyr i ddewis ble i fwyta neu siopa am fwyd.	14/12/2011	07/03/2012

Child Maintenance and Enforcement Commission	**(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)** Consultation on draft regulations: Child Support Management of Payments and Arrears (Write off and Part Payment in Full and Final Satisfaction) Amendment Regulations 2012	The Child Maintenance and Other Payments Act 2008 ("the 2008 Act") gave the Commission a number of new arrears management powers to allow the Commission to manage efficiently the level of child maintenance arrears that have previously accumulated and are owed to the Child Support Agency (CSA). The Government proposes to take regulations to Parliament in spring 2012 to enable the introduction of these powers. These will set out in detail the manner in which the Commission may operate them. The latest draft versions of these regulations are included in the annexes at the end of this document.	19/12/2011	12/03/2012
Llywodraeth Cymru	Ymgynghoriad ar y canllawiau ar gyfer gofal parhaus i blant a phobl ifanc	Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich sylwadau ar y canllawiau drafft ar gyfer Gofal Parhaus i Blant a Phobl Ifanc. Mae'n disgrifio proses ar gyfer sefydlu pecynnau gofal parhaus i'r plant a phobl ifanc nad oes modd diwallu eu hanghenion o fewn y gwasanaethau cyffredinol neu arbenigol sy'n bodoli eisoes.	20/12/2011	13/03/2012
Llywodraeth Cymru	Ymgynghoriad ar Orchymyn Iechyd Meddwl (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Eilaidd) (Cymru) drafft 2012	Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich sylwadau ar Orchymyn Drafft. Mae'n darparu diffiniad pellach am yr hyn y dylid ei ystyried yn Wasanaethau Iechyd Meddwl Eilaidd o dan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010. Effaith y Gorchymyn hwn yw: • eithrio unrhyw wasanaeth a ddarperir fel rhan o wasanaeth cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol o dan Ran 1 o'r Mesur rhag cael ei ystyried fel gwasanaeth iechyd meddwl eilaidd; • galluogi gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd a ddarparwyd rywle arall yn y Deyrnas Unedig i gael eu hystyried yn wasanaethau iechyd meddwl eilaidd ar gyfer Rhan 3 o'r Mesur yng Nghymru.	21/12/2011	14/03/2012
Llywodraeth Cymru	Adolygu'r Dull o Weithredu'r Gyfarwyddeb Nitradau yng Nghymru	Mae'r Gyfarwyddeb Nitradau (91/676/EEC) yn ei gwneud yn ofynnol i aelod-wladwriaethau adolygu eu ffordd o weithredu'r Gyfarwyddeb bob pedair blynedd. Nod Cyfarwyddeb Nitradau'r Comisiwn Ewropeaidd yw lleihau'r llygredd dŵr a achosir gan nitradau o ffynonellau amaethyddol. Fe ddaeth yn gyfraith yng Nghymru o dan Reoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2008.	23/12/2011	16/03/2012

Llywodraeth Cymru	Ymgynghoriad ar fridio cŵn	Mae'r Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 yn rhoi'r gallu i Wenidogion Cymru i ddisodli Deddf Bridio Cwn 1973 gyda Rheoliadau priodol.	20/12/2011	27/03/2012
Llywodraeth Cymru	Cynigion i ddiwygio'r gofynion ar gyfer cofrestru'r gweithlu addysg yng Nghymru	I gyflawni'r agenda hon, mae'r Gweinidog eisiau sicrhau bod y gweithlu addysg yn gweithio gyda'i gilydd fel un grŵp cydlynus o weithwyr proffesiynol i wella safonau addysg ar gyfer pobl Cymru. Mae cryn wahaniaeth rhwng y gofynion ar gyfer safonau proffesiynol, cymwysterau, hyfforddiant cychwynnol, rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol parhaus ar draws amryfal sectorau'r gweithlu addysg. Er bod rhai o'r gwahaniaethau hyn yn dra phriodol ac yn adlewyrchu gwahaniaethau go iawn yng ngofynion y sectorau, mae yna wahaniaethau eraill, artiffisial, sy'n rhwystro cydweithredu a symudedd ymhlith y gweithlu. Nid ydyw'n rhoi sicrwydd i'r cyhoedd chwaith fod pob gweithiwr addysg proffesiynol yn arddel safonau uchel o ymddygiad a chymhwysedd proffesiynol, ac felly gall danseilio parch cydradd.	16/12/2011	30/03/2012
Llywodraeth Cymru	Ymgynghoriad ar opsiynau i ddisodli Grantiau Gofal Cymunedol a Benthyciadau Argyfwng ar gyfer Treuliau Byw y Gronfa Gymdeithasol	Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn ceisio barn ar ddisodli'r Grantiau Gofal Cymunedol a'r Benthyciadau Argyfwng ar gyfer treuliau byw unwaith y caiff yr arian ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2013. Mae'r Bil Diwygio Lles sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd yn diddymu'r Gronfa Gymdeithasol ddewisol ac yn paratoi'r ffordd ar gyfer darparu gwasanaethau lleol newydd i ddisodli Grantiau Gofal Cymunedol a Benthyciadau Argyfwng ar gyfer treuliau byw cyffredinol. O fis Ebrill 2013, caiff y Gronfa Gymdeithasol ei datganoli i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol yn Lloegr a Llywodraeth yr Alban. Bydd Llywodraeth Cymru yn cael swm o arian sy'n cyfateb i'r hynny a wariwyd ar y Grantiau Gofal Cymunedol a'r Benthyciadau Argyfwng yng Nghymru ar yr adeg y caiff cyfrifoldeb ei drosglwyddo.	06/01/2012	30/03/2012
Llywodraeth Cymru	Cydamcanu - Cydymdrechu	Rydym yn ymgynghori ar ganllawiau statudol newydd sydd â'r nod o integreiddio'r broses o gynllunio gwasanaethau lleol, symleiddio'r cydweithio, a chryfhau swyddogaeth strategol ac atebolrwydd y bwrdd gwasanaethau lleol. Bwriedir i'r Canllawiau ddisodli'r canllawiau statudol presennol sy'n deillio o nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth: Strategaethau Cymunedol (Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009), Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc (Deddf Plant 2004, Mesur Plant a Theuluoedd 2010), a'r Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles (Deddf GIG Cymru 2006). Nid yw'r gwaith o gynllunio Diogelwch Cymunedol wedi'i ddatganoli (Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998) felly canllawiau cynghorol yn unig yw'r	10/01/2012	30/03/2012

		rhain o ran cynllunio Diogelwch Cymunedol yng Nghymru		
Llywodraeth Cymru	Polisi Gweinidogion Cymru mewn perthynas â dirwyo	Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynigion i gyflwyno polisi dirwyo fel rhan o'r pwerau sancsiynu a allai gael eu cymhwyso i gyrff dyfarnu sy'n torri eu hamodau cydnabod.	09/01/2012	01/04/2012
Llywodraeth Cymru	Amddiffyn plant yng Nghymru trefniadau ar gyfer adolygiadau ymarfer plant aml-asaintaeth - Cannlawiau drafft	Rydym yn ceisio'ch barn am drefniadau newydd arfaethedig ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant (CPR). Diben y fframwaith newydd yw disodli'r system Adolygiadau Achosion Difrifol bresennol. Fel rhan o'r fframwaith CPR newydd, cynhelir gwahanol fathau o adolygiadau yn dibynnu ar natur y digwyddiad ac amgylchiadau'r plentyn o dan sylw. Trefnwyd dau weithdy ar gyfer ymarferwyr i ddarparu manylion pellach. Cynhelir y cyntaf yn Abertawe ar 20 Ionawr 2012 a'r ail yng Nghonwy ar 14 Mawrth 2012.	09/01/2012	02/04/2012
Comisiwn Ffiniau i Gymru	Arolwg 2013 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru	Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi ei gynigion cychwynnol yn awr ar gyfer ymgynghori'n gyhoeddus arnynt. Mae'r cynigion hynny'n rhoi ystyriaeth ofalus i ddatblygiadau ers yr arolwg cyffredinol diwethaf, yn enwedig y newid sylfaenol i'r ddeddfwriaeth. Pwysleisir, fodd bynnag, mai rhai dros dro yw bob un o'r cynigion. Rhoddir pwys mawr ar y cyfle sy'n cael ei gynnig yn awr i bawb sy'n gysylltiedig wneud cynrychiolaethau i'r Comisiwn, pa un a ydynt yn cefnogi'r cynigion neu'n eu gwrthwynebu. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu cyhoeddi cynigion cychwynnol ar gyfer Cymru gyfan mewn un ddogfen unigol. Lle'r oedd yn bosibl mewn arolygon blaenorol i gyflwyno cynigion trwy gyfeirio at yr 8 sir gadwedig yng Nghymru, nid yw hyn yn bosibl mwyach. Bu'n angenrheidiol cynnal yr arolwg hwn ar sail Cymru gyfan. Fe'ch anogwn i gynnig sylwadau, pa un i gefnogi ein cynigion cychwynnol neu'u gwrthwynebu - byddwn yn ystyried yr holl gynrychiolaethau yn deg, a gallwch ddiwygio ffiniau etholaethau o ganlyniad i hynny. Gallwch ddweud eich dweud drwy ysgrifennu atom (naill ai drwy anfon e-bost atom yn comffin.cymru@wales.gsi.gov.uk neu drwy ysgrifennu at y Comisiwn Ffiniau i Gymru). Yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2012 byddwn yn cynnal cyfres o wrandawiadau cyhoeddus a bydd cyfle i'r cyhoedd roi'u barnau yn bersonol.	11/01/2012	04/04/2012

Adran Busnes Arloesi a Sgiliau	**(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)** Proposals to Align Nine Directives with the New Legislative Framework: Consultation	This consultation seeks your views on the European Commission's Proposals to align a package of nine Directives to the New Legislative Framework.	13/01/2012	06/04/2012
Yr Asiantaeth Safonau Bwyd	Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012	Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru yn ceisio sylwadau gan y diwydiant, awdurdodau gorfodi, awdurdodau iechyd porthladdoedd, defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill ar Reoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012 a'r Asesiad Effaith drafft cysylltiedig.	16/01/2012	09/04/2012
Llywodraeth Cymru	Cynnwys polisi Gorchymyn Personau sy'n Cael eu Cydnabod (Cosbau Ariannol) (Penderfynu Trosiant) (Cymru) 2012	Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynigion i wneud Gorchymyn yn datgan sut y bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu trosiant sefydliadau dyfarnu at ddibenion dirwyo.	16/01/2012	24/02/2012
Adran Gwaith a Phensiynau	**(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)** Personal Independence Payment: assessment thresholds and consultation	This consultation is intended to seek views on the second draft of the assessment criteria for Personal Independence Payment and in particular on the changes that have been made since the first draft, the proposed descriptor weightings and entitlement thresholds and the draft regulations. At this stage in the development process we do not envisage making significant changes to the broad principles or scope of the assessment and so are not seeking views on these. The Department is keen to hear views from all interested parties but in particular from disabled people and disability organisations.	16/01/2012	30/04/2012
Llywodraeth Cymru	Ein gwefan: Arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid	Gweithgaredd casglu gwybodaeth yw hwn ar ran Llywodraeth Cymru sydd wedi'i anelu at wella a datblygu ein gwefan er mwyn diwallu eich anghenion a'ch disgwyliadau chi. Mae'r we yn datblygu drwy'r amser. Ewch i www.cymru.gov.uk i weld y newidiadau diweddaraf. Drwy ateb y cwestiynau, byddwch yn ein helpu ni i wella'r safle. Mae'r arolwg yn ddienw a bydd yr holl wybodaeth a roddwch yn cael ei chadw'n ddiogel ac yn gwbl gyfrinachol. Ni ddylai gymryd mwy na 5 munud i chi lenwi'r arolwg.	02/12/2011	